Rhif: WG29899

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: 17 Hydref 2016
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 9 Ionawr 2017

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

## TROSOLWG

Diben yr ymgynghoriad hwn yw rhoi gwybodaeth i randdeiliaid am fwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru i lywio a blaenoriaethu penderfyniadau buddsoddi ar anghenion seilwaith tymor canolig i'r tymor hwy, a rhoi'r cyfle i randdeiliaid fynegi barn ar y ffordd y mae'r comisiwn wedi'i sefydlu ac yn cael ei redeg.

## SUT I YMATEB

Mae'r cyfnod ymgynghori'n cychwyn ar 17 Hydref 2016 ac yn gorffen ar 9 Ionawr 2017. Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau dan sylw.

Mae'r ddogfen ar gael ar y rhyngrwyd yn https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

Ymatebwch drwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad A ac e-bostio neu bostio eich ymateb gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

## GWYBODAETH BELLACH A DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

Mae fersiynau print bras, Braille, CD sain ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## MANYLION CYSWLLT


| | |
|---|---|
| Cyfeiriad post: | Julia Williams<br>Yr Is-adran Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau<br>Yr Adran dros yr Economi a'r Seilwaith<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| E-bost: | julia.williams@wales.gsi.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 029 2080 1333 |

## DIOGELU DATA

### Sut defnyddir y safbwyntiau a'r wybodaeth rydych chi'n eu rhoi i ni

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei afon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy. Gall hefyd gael ei weld gan staff eraill Llywodraeth Cymru i'w helpu i gynllunio ymgyngoriadau'r dyfodol.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan anfonwch eich ymateb. Byddwn yna'n eu cuddio.

Mae'n bosibl y caiff enwau neu gyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid yw hyn yn digwydd yn aml. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am weld gwybodaeth a gedwir gan sawl corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi.

Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn ein caniatáu i ddal gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am weld y wybodaeth rydyn ni wedi'i chadw'n ôl, bydd angen i ni benderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio. Os oes rhywun wedi gofyn i'w enw a'i gyfeiriad beidio â chael eu cyhoeddi, bydd hyn yn ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau gallai fod rhesymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er bod y person hwnnw wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi’r manylion hyn. Byddem yn cysylltu â'r person ac yn gofyn am ei farn cyn penderfynu datgelu'r wybodaeth.

**RHAGAIR**

Mae ystod ac ansawdd seilwaith gwlad - y systemau a'r gwasanaethau ffisegol y mae eu hangen arni er mwyn gweithio'n effeithiol - yn elfen hanfodol o ran sicrhau lles ei phobl.

Rydyn ni'n byw ar adeg o ansicrwydd ariannol mawr, sy'n ei gwneud yn bwysicach fyth gweithredu nawr i atgyfnerthu'r ffordd rydyn ni'n ystyried ac yn blaenoriaethu anghenion seilwaith y dyfodol ac yn creu'r amodau ar gyfer buddsoddiad sefydlog, hirdymor.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i symud tuag at strategaeth fwy hirdymor o fuddsoddi mewn seilwaith, sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth ac sy'n cadw at egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac a fydd yn galluogi prosiectau penodol i gael eu datblygu'n fwy effeithlon gan fod pobl Cymru yn deall eu pwysigrwydd i'r strategaeth ac yn eu cefnogi, gan gynnwys yr angen i sicrhau gwerth am arian o fuddsoddiad sector cyhoeddus.

I helpu i gyflawni'r nod hwn, ein bwriad yw sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol cynghorol, anstatudol i Gymru i ddarparu cyngor strategol annibynnol ac arbenigol.

Byddai'r cyfrifoldeb am bennu polisi, ynghyd â'r fframwaith rheoliadol a chynllunio, a gwneud penderfyniadau buddsoddi lle bo hyn yn un o swyddogaethau'r llywodraeth, yn nwylo Gweinidogion Cymru o hyd ar gyfer seilwaith datganoledig, a chyda Llywodraeth y DU ar gyfer seilwaith heb ei ddatganoli.

Gwerthfawrogwn fod amrywiaeth o fodelau eisoes yn bodoli a syniadau gwahanol ynghylch statws a chylch gwaith corff seilwaith.

Yn fy marn i, gallai sefydlu comisiwn cynghorol, anstatudol fod yn gam cyntaf posibl mewn perthynas ag atgyfnerthu penderfyniadau a darparu seilwaith, ac rwy'n agored i newid statws a chylch gwaith y corff os, drwy brofiad, y daw manteision clir i'r amlwg dros wneud hynny.

Mae croeso i chi roi eich barn ar ddatblygiad y comisiwn arfaethedig a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol.

**Ken Skates AC**
**Gweinidog dros yr Economi a'r Seilwaith**

## Tabl Cynnwys

CYFLWYNIAD .......... 5
STATWS A CHYLCH GWAITH .......... 5
Y BERTHYNAS Â CHOMISIWN SEILWAITH Y DU .......... 8
AELODAETH .......... 9
GWEINYDDU .......... 10
GONESTRWYDD A THRYLOYWDER .......... 11

## CYFLWYNIAD

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (CSCiG) o fewn y 12 mis nesaf i roi cyngor annibynnol ac arbenigol i ni ar anghenion a blaenoriaethau seilwaith strategol.

## STATWS A CHYLCH GWAITH

Byddai CSCiG yn gorff cynghorol, sy'n gyfrifol am ddadansoddi, cynghori a gwneud argymhellion ar anghenion seilwaith strategol tymor hwy Cymru dros gyfnod o 5-30 mlynedd drwy lunio adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru; strategol nid yn unig o ran maint neu gost prosiect unigol ond hefyd o ran effaith gyfunol bosibl nifer o brosiectau llai.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai cylch gwaith ac allbwn CSCiG gynnwys darparu dadansoddiadau, cyngor ac argymhellion i Weinidogion Cymru?**

Byddai cylch gwaith CSCiG yn estyn i'r holl sectorau seilwaith economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys ynni, trafnidiaeth, dŵr a charthffosiaeth, datrysiadau draenio, gwastraff, cyfathrebu digidol, rheoli llifogydd ac erydu arfordirol a byddai'n estyn i seilwaith datganoledig a seilwaith heb ei ddatganoli, gan adlewyrchu'r setliad datganoli a natur drawsffiniol seilwaith - er enghraifft y rhwydwaith rheilffyrdd.

Byddai'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau buddsoddi ynghylch seilwaith datganoledig yn nwylo Gweinidogion Cymru o hyd, neu Lywodraeth y DU ar gyfer seilwaith heb ei ddatganoli.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y dylai cylch gwaith CSCiG estyn i seilwaith heb ei ddatganoli yn ogystal â seilwaith datganoledig?**

Er mwyn sefydlogrwydd ac atebolrwydd, ni chynigir i CSCiG roi cyngor ar raglenni a gwaith y penderfynwyd arnynt eisoes neu y penderfynir arnynt yn y dyfodol agos gan gyrff statudol a rheoliadol.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno na ddylai CSCiG roi cyngor ar raglenni a gwaith y penderfynwyd arnynt eisoes neu y penderfynir arnynt yn y dyfodol agos gan gyrff statudol a rheoliadol?**

Rydym yn cynnig y byddai CSCiG yn dadansoddi a chynghori ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol mewn modd integredig, gan ddelio â rhyngddibyniaethau mewn modd traws-sector.

Gallai CSCiG hefyd ystyried gweithredu'n drawsbynciol mewn perthynas â materion darparu os yw'n eu hystyried yn rhwystr i fodloni anghenion seilwaith, gan gynnwys llywodraethu, costau, ariannu a methodoleg rheoli rhaglen/prosiect.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylai CSCiG allu ystyried gweithredu'n drawsbynciol mewn perthynas â materion darparu os yw'n eu hystyried yn rhwystr i fodloni anghenion seilwaith, gan gynnwys llywodraethu, costau, ariannu a methodoleg rheoli rhaglen/prosiect?**

**Nodwch unrhyw faterion darparu eraill y dylai CSCiG allu edrych arnynt yn eich barn chi, a'r rheswm dros hynny.**

Byddai CSCiG yn ymgysylltu'n agos ac ymgynghori â chyrff eraill y gallai fod ganddynt gylch gwaith seilwaith economaidd ac amgylcheddol; er enghraifft y Grid Cenedlaethol, OFWAT a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai CSCiG ymgysylltu'n agos ac ymgynghori â chyrff eraill y gallai fod ganddynt gylch gwaith seilwaith**

**economaidd ac amgylcheddol?**

**Yn eich barn chi, pa gyrff allweddol y dylai CSCiG ymgysylltu ac ymgynghori â hwy?**

Byddai cylch gwaith CSCiG hefyd yn cynnwys cymryd rhan mewn fforymau cynghorol strategol perthnasol eraill, gan gynnwys y Cyngor Adnewyddu'r Economi[1] a'r Pwyllgor Llifogydd Statudol[2].

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylai cylch gwaith CSCiG gynnwys cymryd rhan mewn fforymau cynghorol strategol perthnasol eraill, fel y Cyngor Adnewyddu'r Economi?**

**Nodwch unrhyw fforwm arall y dylai CSCiG gymryd rhan ynddo a'r rheswm dros hyn**.

Ni fyddai cylch gwaith CSCiG yn estyn i seilwaith cymdeithasol fel ysgolion, ysbytai a thai. Yn ein barn ni, mae trefniadau sefydledig, effeithiol eisoes ar waith ar gyfer dadansoddi anghenion strategol tymor hwy yn y sectorau hyn a ddylai barhau'n gyfrifoldeb i'r awdurdodau cynllunio a gwasanaethau perthnasol. Fodd bynnag, byddai cylch gwaith CSCiG yn estyn i ddarparu cyngor ar y rhyngweithiadau rhwng seilwaith economaidd ac amgylcheddol a seilwaith cymdeithasol.

Er na fyddai'n gorff cyhoeddus o fewn ystyr y ddeddfwriaeth, disgwylir i CSCiG weithredu'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[3].

---

[1] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/welsh-economy/economiccouncil/?lang=cy
[2]
[3] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

Byddai angen gosod cyngor CSCiG yng nghyd-destun rhagolygon realistig o lefel y buddsoddiad cyfalaf mewn cynlluniau seilwaith cyhoeddus yng Nghymru o bob ffynhonnell ariannol gyhoeddus a phreifat.

Bydd gwaith y Comisiwn yn helpu i hysbysu cynlluniau buddsoddi mewn seilwaith byr i hir dymor Llywodraeth Cymru..

Byddai CSCiG hefyd yn llywio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru[4] a fydd yn rhoi persbectif strategol tymor hwy ar anghenion cynllunio ac sy'n gydran allweddol o'r newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 ar gyfer ad-drefnu'r system gynllunio i sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn galluogi datblygu.

Rydyn ni wedi ystyried yr achos dros sefydlu CSCiG fel corff statudol a ph'un a ddylai fod ganddo gylch gwaith ehangach. Ar y cam hwn, nid oes digon o dystiolaeth yn bodoli yn ein barn ni i gefnogi sefydlu comisiwn statudol a/neu gorff â chylch gwaith ehangach.

Fodd bynnag, rydym yn agored i newid statws a chylch gwaith y corff os daw tystiolaeth gefnogol i'r amlwg yn y dyfodol. Cynigiwn lunio a chyhoeddi adolygiad o statws a chylch gwaith y corff cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021.

| |
|---|
| **Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru lunio a chyhoeddi adolygiad o statws a chylch gwaith CSCiG cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021?** |

## Y BERTHYNAS Â CHOMISIWN SEILWAITH Y DU

[4] http://gov.wales/topics/planning/legislation/planning-wales-act-2015/?lang=cy

Mae Llywodraeth y DU yn sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol[5] i ddadansoddi anghenion seilwaith strategol tymor hwy y DU. Bydd ei gylch gwaith yn cwmpasu'r meysydd seilwaith economaidd sy’n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU.

Fodd bynnag, bydd yna feysydd lle bydd cyfrifoldebau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn rhyngweithio, er enghraifft rhwydweithiau ffyrdd strategol trawsffiniol, ac rydym wrthi'n cynnal deialog â Llywodraeth y DU am ddatblygu trefniadau i ganiatáu ar gyfer amgylchiadau o'r fath.

Yn ein barn ni dylai perthynas ffurfiol gael ei datblygu rhwng CSCiG a chomisiwn y DU. Cynigiwn fod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei lunio rhwng y ddau gorff yn nodi sut y byddant yn ymgysylltu â'i gilydd, a bod un o Gomisiynwyr y DU yn cael ei benodi fel aelod o CSCiG.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylai CSCiG gydweithio gyda comisiynydd o Bwyllgor Seilwaith y DU ble berthnasol? gael ei benodi'n aelod o?**

**AELODAETH**

Cynigiwn fod CSCiG yn cynnwys 10 aelod, gan gynnwys y Cadeirydd, ac y byddai pob un yn cael ei benodi ar sail ei wybodaeth a'i brofiad arbenigol, nid yn rhinwedd ei swydd.

Bydd angen i aelodau allu meddwl a gweithredu ar draws sectorau; bod yn greadigol a chynhwysol o ran dadansoddi anghenion y dyfodol a'r heriau polisi cyhoeddus sy'n ein hwynebu, megis datgarboneiddio.

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno y dylai aelodau CSCiG gael eu penodi yn**

[5] https://www.gov.uk/government/organisations/national-infrastructure-commission

**rhinwedd eu gwybodaeth arbenigol a phrofiad?**

Byddai penodiadau'n cael eu gwneud drwy ymarfer penodi cyhoeddus agored yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus[6], yr egwyddorion o deilyngdod, tegwch a gonestrwydd, a'r egwyddorion Nolan ehangach.

**Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno y dylai pob penodiad i CSCiG gael ei wneud drwy ymarfer penodi cyhoeddus agored?**

Mae amrywiaeth o brofiadau a safbwyntiau yn gwella penderfyniadau ac rydym yn ymrwymedig i wella ymgysylltiad a chyfranogiad ar gyfer pob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys menywod, pobl anabl a grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, i sicrhau bod y cyrff y mae'r penodeion yn eu gwasanaethu yn gredadwy ac yn mynnu hyder y cyhoedd.

Rydym am ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer y broses penodiadau cyhoeddus i ddal sylw a diddordeb amrywiaeth mor eang â phosibl o ymgeiswyr. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni hyn.

**Cwestiwn 11: Sut ydych chi'n credu y dylem hyrwyddo'r broses penodiadau cyhoeddus hon i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?**

## GWEINYDDU

[6] http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2012/02/Code-of-Practice-for-Ministerial-Appointments-to-Public-Bodies.pdf

Cynigiwn fod CSCiG yn cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth benodedig yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli yn un o'n swyddfeydd. Hefyd, dylai CSCiG gael y capasiti i gomisiynu ymchwil dargedig lle bo angen a lle nad yw eisoes ar gael neu wedi'i chynllunio gan gyrff eraill.

Bydd taliadau'n cael eu gwneud i aelodau yn unol â'r trefniadau penodi cyhoeddus.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno y dylai CSCiG allu comisiynu ymchwil dargedig?**

**Nodwch unrhyw ymchwil benodol y dylai CSCiG, yn eich barn chi, ei chomisiynu fel blaenoriaeth i lywio'i waith gystal â phosibl, ac esboniwch pam.**

**GONESTRWYDD A THRYLOYWDER**

Byddai CSCiG yn dadansoddi, cynghori a gwneud argymhellion mewn perthynas ag anghenion seilwaith tymor hwy Cymru drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru.

Cynigiwn fod CSCiG yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar ei waith. Er mwyn sicrhau eu bod yn ystyrlon, yn ein barn ni dylai adroddiadau gael eu cyhoeddi'n flynyddol.

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno y dylai CSCiG gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith?**
**Yn eich barn chi, pa ffactorau fyddai'n golygu bod angen i adroddiadau gael eu cyhoeddi fwy nag unwaith y flwyddyn?**

Rydym hefyd yn cynnig y dylai CSCiG gynnal cyfarfodydd cyhoeddus bob blwyddyn yng Ngogledd, Canolbarth, De a Gorllewin Cymru i esbonio a hyrwyddo ei rôl a'i waith.

**Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno y dylai CSCiG gynnal cyfarfodydd cyhoeddus bob blwyddyn yng Ngogledd, Canolbarth, De a Gorllewin Cymru i esbonio a hyrwyddo ei rôl?**